



# Mentrau Micro Ofal Gwynedd

## Beth yw menter micro ofal?

Mae menter micro ofal yn unigolyn neu yn grŵp bach o bobl (dim mwy nag 8) sydd yn gweithio yn eu cymunedau yn cefnogi pobl dros ddeunaw oed, sydd angen cefnogaeth, i gyflawni beth sydd yn bwysig iddyn nhw.

## Beth mae menter micro ofal yn ei wneud?

Mae'r mentrau yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i bobl yn eu tai a'r gymuned. Maen nhw i gyd efo'r un nod, sef, sicrhau bod pobl yn cael y gofal neu'r gefnogaeth sydd yn eu siwtio nhw i fyw bywyd llawn a diogel yn eu cymunedau

## Mae Cyngor Gwynedd yn cefnogi mentrau micro ofal trwy:

Gynnig rhaglen ddatblygu sydd yn gwneud yn siŵr bod popeth yn ei le i roi gwasanaeth diogel ac o safon uchel.

Mae'r Catalydd Cymunedol ar gael i siarad am y broses o sefydlu menter eich hunain a gall roi cefnogaeth am ddim i chi, gan gynnwys:

- » Cyfle i wneud cais am grant i helpu efo'r gost o sefydlu menter
- » Dechrau a chynllunio eich menter
- » Cyngor a mynediad i hyfforddiant angenrheidiol
- » Polisiau a chontractau
- » Cyfrifon ac HMRC
- » Gwybodaeth am yswiriant, DBS a'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)

## Hoffech chi wybod mwy am sut i sefydlu eich menter micro ofal eich hun?

Os ydych chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod eisiau mwy o wybodaeth, cysylltwch gyda'r Catalydd Cymunedol.

**Manylion Cyswllt Catalydd Cymunedol**

**Rhif ffôn: 07824125642**

**Cyfeiriad e-bost: [microofal@gwynedd.llyw.cymru](mailto:microofal@gwynedd.llyw.cymru)**